



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 1689 (Cy.217)

2012 No. 1689 (W.217)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

PYSGOD CREGYN

SHELLFISH

Gorchymyn Pysgodfa Cregyn
Gleision Bae Abertawe (Thomas
Shellfish Limited) 2012

The Swansea Bay (Thomas
Shellfish Limited) Mussel Fishery
Order 2012

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi i Thomas Shellfish Limited (Rhif y Cwmni: 04751727) ("y Grantî") yr hawl i bysgodfa unigol am gregyn gleision (*Mytilus edulis*) dros arwynebedd o tua 70 hectar ym Mae Abertawe am gyfnod o 20 mlynedd sy'n dechrau ar 18 Medi 2012.

This Order confers on Thomas Shellfish Limited (Company Number 04751727) ("the Grantee") a right of several fishery for mussels (*Mytilus edulis*) over an area of approximately 70 hectares in Swansea Bay for a period of 20 years starting on 18 September 2012.

Diffinnir hyd a lled y bysgodfa drwy ddefnyddio'r cyfesurynnau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir, at ddibenion eglurhaol yn unig, ar fap sydd ar gael i'w archwilio (os gwneir apwyntiad ymlaen llaw) yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The extent of the fishery is defined using the co-ordinates set out in the Schedule to this Order and is shown, for illustrative purposes only, on a map which is available for inspection (subject to prior appointment) at the offices of the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

Mae erthygl 3 yn rhoi'r hawl i bysgodfa unigol.

Article 3 confers the right of several fishery.

Mae erthygl 4 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Grantî yn marcio terfynau'r bysgodfa ym mha bynnag fodd y bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo o bryd i'w gilydd, ac yn cynnal y marcwyr hynny yn eu lleoedd ac mewn cyflwr da.

Article 4 requires the Grantee to mark the limits of the fishery in such manner as the Welsh Ministers may from time to time direct and to maintain those markers in position and good repair.

Mae erthygl 5 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Grantî yn cyflwyno manylion daliadau yn flynyddol i Weiniogion Cymru, gan gynnwys gwybodaeth benodedig.

Article 5 requires the Grantee to submit an annual catch return setting out specified information to the Welsh Ministers.

Mae erthygl 6 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Grantî yn darparu cyfrifon blynyddol ac yn cydymffurfio â phob cais am wybodaeth a wneir gan Weiniogion Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd fod y

Article 6 requires the Grantee to provide annual accounts and to comply with all requests for information made by the Welsh Ministers. It also requires the Grantee to allow any person authorised by

Grantî yn caniatáu i unrhyw berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru archwilio ardal y bysgodfa a'r holl gyfrifon a dogfennau eraill sydd ym meddiant y Grantî ac sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwn a'r ardal honno.

Mae erthygl 7 yn darparu na chaiff dim sydd yn y Gorchymyn hwn leihau effaith hawliau'r Goron, ac erthygl 8 yn darparu na chaiff dim sydd yn y Gorchymyn hwn leihau effaith unrhyw swyddogaethau statudol a arferir gan ymgymerydd statudol.

Mae erthygl 9 yn gwahardd aseinio, neu drosglwyddo rywfodd arall, yr hawl i bysgodfa unigol a grëir gan y Gorchymyn hwn heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru.

Os na fodlonir Gweinidogion Cymru bod Grantî yn ffermio'r bysgodfa neu'n gweithredu'r cyfyngiadau a'r rheoliadau a gynhwysir yn y Gorchymyn yn briodol, mae adran 5(1) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud tystysgrif i'r perwyl hwnnw, a fydd yn terfynu'r bysgodfa yn llwyr, o ran yr ardal y gwneir y dystysgrif mewn perthynas â hi.

the Welsh Ministers to inspect the area of the fishery and all accounts and other documents in the possession of the Grantee relating to this Order and that area.

Article 7 provides that nothing in this Order will affect prejudicially the rights of the Crown and article 8 provides that nothing in this Order will affect prejudicially the exercise of any statutory functions by a statutory undertaker.

Article 9 prohibits the assignment or other transfer of the right of several fishery created by this Order without the prior written consent of the Welsh Ministers.

Section 5(1) of the Sea Fisheries (Shellfish) Act 1967 provides that where the Welsh Ministers are not satisfied that the Grantees are properly cultivating or carrying into effect the restrictions and regulations contained in the Order, the Welsh Ministers may make a certificate to that effect which will absolutely determine the fishery in relation to the area in respect of which the certificate has been made.

2012 Rhif 1689 (Cy.217)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

PYSGOD CREGYN

**Gorchymyn Pysgodfa Cregyn
Gleision Bae Abertawe (Thomas
Shellfish Limited) 2012**

Gwnaed 27 Mehefin 2012
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 29 Mehefin 2012
Yn dod i rym 18 Medi 2012

Gwnaed cais i Weinidogion Cymru gan Thomas Shellfish Limited (Rhif y Cwmni: 04751727) ("y Grantî") am Orchymyn sy'n rhoi yr hawl i bysgodfa unigol o dan adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967(1) ("y Ddeddf").

Paratowyd Gorchymyn drafft gan Weinidogion Cymru a chyflwynwyd copi ohono i'r Grantî yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Parodd y Grantî fod copïau printiedig o'r Gorchymyn drafft yn cael eu cyhoeddi a'u cylchredeg, a rhoddodd hysbysiad o'r cais yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

(1) 1967 p.83. Diwygiwyd adran 1 o'r Ddeddf gan adran 15(1) a (2) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77); adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) (Diwygio) 1997 (p.3); adran 9(1) o Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86) a pharagraff 15 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno; adrannau 202(1), (2) a (3), 203 a 321 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23), a Rhan 5(A) o Atodlen 22 i'r Ddeddf honno. Rhaid darllen y Ddeddf ar y cyd ag adran 15(3) i (5) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77). Diwygiwyd Atodlen 1 i'r Ddeddf gan adran 15(7) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77), adran 31(6) o Ddeddf Cyfraith Droseddol 1977 (p.45), adrannau 37 a 46 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p.48) ac adrannau 202(4), 214(1) i (4) a 321 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23) a Rhan 5(A) o Atodlen 22 i'r Ddeddf honno.

2012 No. 1689 (W.217)

**SEA FISHERIES,
WALES**

SHELLFISH

**The Swansea Bay (Thomas
Shellfish Limited) Mussel Fishery
Order 2012**

Made 27 June 2012
*Laid before the National
Assembly for Wales* 29 June 2012
Coming into force 18 September 2012

Thomas Shellfish Limited (Company Number 04751727) ("the Grantee") made an application to the Welsh Ministers for an Order conferring a right of several fishery under section 1 of the Sea Fisheries (Shellfish) Act 1967(1) ("the Act").

The Welsh Ministers prepared a draft Order and served a copy of it on the Grantee in accordance with paragraph 1 of Schedule 1 to the Act.

The Grantee caused printed copies of the draft Order to be published and circulated, and gave notice of the application, in accordance with paragraph 2 of Schedule 1 to the Act.

(1) 1967 c. 83. Section 1 of the Act was amended by section 15(1) and (2) of the Sea Fisheries Act 1968 (c.77); section 1 of the Sea Fisheries (Shellfish) (Amendment) Act 1997 (c.3); section 9(1) of, and paragraph 15 of Schedule 2 to, the Fishery Limits Act 1976 (c. 86); sections 202(1), (2) and (3), 203 and 321 of, and Part 5(A) of Schedule 22 to, the Marine and Coastal Access Act 2009 (c.23). The Act is to be read with section 15(3) to (5) of the Sea Fisheries Act 1968 (c.77). Schedule 1 to the Act was amended by section 15(7) of the Sea Fisheries Act 1968 (c.77), section 31(6) of the Criminal Law Act 1977 (c.45), sections 37 and 46 of the Criminal Justice Act 1982 (c.48) and section 202(4), 214(1) to (4) and 321 of, and Part 5(A) of Schedule 22 to, the Marine and Coastal Access Act 2009 (c.23).

Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn gael ei wneud.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid gwneud y Gorchymyn canlynol yn awr.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 1 o'r Ddeddf ac sydd bellach wedi eu breinio(1) ynddynt hwy.

Enwi, cychwyn a chymhwys

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision Bae Abertawe (Thomas Shellfish Limited) 2012, a daw i rym ar 18 Medi 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr Ardal" ("*the Area*") yw'r ardal o Fae Abertawe a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y bysgodfa" ("*the fishery*") yw'r hawl i bysgodfa unigol a grëir gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cragen las" ("*musse*") yw unrhyw bysgodyn cragen o'r math *Mytilus edulis*;

ystyr "cyfesuryn" ("*co-ordinate*") yw cyfesuryn lledred a hydred yn System Geodetig Fyd-eang 1984;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967;

ystyr "y Granti" ("*the Grantee*") yw Thomas Shellfish Limited (Rhif y Cwmni: 04751727) sydd â'i swyddfa gofrestredig yn Druslyn House, Stryd De La Beche, Abertawe, SA1 3HJ, neu pa bynnag berson arall sydd â hawl i'r bysgodfa am y tro; ac

ystyr "ymgymerydd statudol" ("*statutory undertaker*") yw unrhyw berson sydd, neu yr ystyrir ei fod, yn ymgymerydd statudol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth o Ran 11 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(2).

No objections to the making of the Order were received.

In the opinion of the Welsh Ministers the following Order should now be made.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by section 1 of the Act which are now vested(1) in them.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Swansea Bay (Thomas Shellfish Limited) Mussel Fishery Order 2012 and it comes into force on 18 September 2012.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Interpretation

2. In this Order—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Sea Fisheries (Shellfish) Act 1967;

"the Area" ("*yr Ardal*") means the area of Swansea Bay described in the Schedule to this Order;

"co-ordinate" ("*cyfesuryn*") means a co-ordinate of latitude and longitude on the World Geodetic System 1984;

"the fishery" ("*y bysgodfa*") means the right of several fishery created by article 3 of this Order;

"the Grantee" ("*y Granti*") means Thomas Shellfish Limited (Company Number 04751727) whose registered office is at Druslyn House, De La Beche Street, Swansea, SA1 3HJ or such other person as is for the time being entitled to the fishery;

"mussel" ("*cragen las*") means any shellfish of the type *Mytilus edulis*; and

"statutory undertaker" ("*ymgymerydd statudol*") means any person who is, or is deemed to be, a statutory undertaker for the purposes of any provision of Part 11 of the Town and Country Planning Act 1990(2).

(1) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw, trosglwyddwyd swyddogaethau "the appropriate Minister" fel y'i diffinnir yn adran 22(1) o'r Ddeddf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weindogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(2) 1990 p.8.

(1) By virtue of article 2(a) of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions of the appropriate Minister as defined in section 22(1) of the Act were transferred to the National Assembly for Wales (as constituted under the Government of Wales Act 1998 (c.38)) in so far as exercisable in relation to Wales. Those functions of the National Assembly for Wales were subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(2) 1990 c.8.

Yr hawl i bysgodfa

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae gan y Grantî yr hawl i bysgodfa unigol am gregyn gleision o fewn yr Ardal am gyfnod o 20 mlynedd sy'n dechrau ar 18 Medi 2012.

Marcio terfynau'r Ardal

4. Rhaid i'r Grantî farcio terfynau'r Ardal ym mha bynnag fodd a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd, a rhaid iddo gynnal y marcwyr hynny yn eu lleoedd ac mewn cyflwr da.

Manylion daliadau

5.—(1) Rhaid i'r Grantî gyflwyno i Weinidogion Cymru fanylion daliadau—

- (a) ar gyfer y cyfnod o 18 Medi 2012 i 31 Mawrth 2013, ar neu cyn 31 Gorffennaf 2013; ac ar ôl hynny
- (b) ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Mawrth, ar neu cyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r cyfnod hwnnw'n dod i ben.

(2) Rhaid i fanylion daliadau at ddibenion paragraff (1) gofnodi—

- (a) cyfanswm pwysau byw blynyddol y grawn cregyn gleision a heur yn y bysgodfa;
- (b) lleoliad y ffynhonnell y daeth y grawn cregyn gleision ohoni;
- (c) cyfanswm pwysau byw blynyddol yr holl gregyn gleision a gymerir o'r bysgodfa;
- (d) lleoliad y man y cymerwyd y cregyn gleision ohono; ac
- (e) pa bynnag wybodaeth bellach a fydd yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd ac yr hysbysir y Grantî ohoni.

Cyfrifon o'r incwm a'r gwariant, gwybodaeth arall ac archwilio

6.—(1) Rhaid i'r Grantî roi i Weinidogion Cymru gyfrifon blynyddol o incwm a gwariant y Grantî o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Heb leihau dim ar effaith paragraff (1), rhaid i'r Grantî gydymffurfio ag unrhyw gais a wneir gan Weinidogion Cymru am wybodaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

(3) Rhaid i'r Grantî ganiatáu i unrhyw berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru archwilio'r Ardal a'r holl gyfrifon a dogfennau eraill sydd ym meddiant y Grantî ac sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwn, a rhaid iddo roi i'r person hwnnw unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r materion hyn, y gofynnir amdani gan y person hwnnw.

Right of fishery

3. Subject to the provisions of this Order, the Grantee has the right of several fishery for mussels within the Area for a period of 20 years starting on 18 September 2012.

Marking of limits of the Area

4. The Grantee must mark out the limits of the Area in such manner as the Welsh Ministers may from time to time direct and must maintain those markers in position and good repair.

Catch Return

5.—(1) The Grantee must submit to the Welsh Ministers a catch return—

- (a) for the period from 18 September 2012 to 31 March 2013 on or before 31 July 2013; and thereafter
- (b) for the period from 1 April to 31 March on or before the 31 July in the year during which that period ends.

(2) A catch return for the purposes of paragraph (1) must record—

- (a) the annual total live weight of seed mussel laid down on the fishery;
- (b) the location from which the seed mussels were sourced;
- (c) the annual total live weight of all mussels taken from the fishery;
- (d) the location from which the mussels were taken; and
- (e) such further information as may be required by the Welsh Ministers and notified to the Grantee from time to time.

Accounts of income and expenditure, other information and inspection

6.—(1) The Grantee must give to the Welsh Ministers annual accounts of the Grantee's income and expenditure under this Order.

(2) Without prejudice to paragraph (1), the Grantee must comply with any request made by the Welsh Ministers for information relating to this Order.

(3) The Grantee must allow any person authorised by the Welsh Ministers to inspect the Area and all accounts and other documents in the possession of the Grantee relating to this Order, and must give that person any information relating to these matters which that person may require.

Hawliau'r Goron

7. Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n lleihau effaith unrhyw ystad, hawl, pŵer, braint neu esemptiad y Goron, ac yn benodol, nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi'r Grantî i gymryd, defnyddio neu ymyrryd mewn unrhyw fodd ag unrhyw ran o lan neu wely'r môr neu lan neu wely unrhyw afon, sianel, cilfach, bae neu aber neu unrhyw dir, hereditamentau, gwrthrychau neu hawliau o unrhyw ddisgrifiad sy'n eiddo i'w Mawrhydi drwy hawl ei Choron ac o dan reolaeth Comisiynwyr Ystad y Goron.

Hawliau ymgwymerwyr statudol

8. Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n lleihau effaith unrhyw swyddogaethau statudol a arferir gan ymgwymerydd statudol.

Aseinio

9. Ni chaiff y Grantî, heb ganiatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru ymlaen llaw, aseinio'r hawl hwn i bysgodfa, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffordd arall, i unrhyw berson arall.

Rights of the Crown

7. Nothing in this Order affects prejudicially any estate, right, power, privilege or exemption of the Crown, and in particular nothing in this Order authorises the Grantee to take, use or in any manner interfere with any portion of the shore or bed of the sea or of any river, channel, creek, bay or estuary or any land, hereditaments, subjects or rights of whatever description belonging to her Majesty in right of the Crown and under the management of the Crown Estate Commissioners.

Rights of statutory undertakers

8. Nothing in this Order affects prejudicially the exercise of any statutory functions by a statutory undertaker.

Assignment

9. The Grantee may not without the prior written consent of the Welsh Ministers assign or in any other way transfer this right of fishery to any other person.

Alun Davies

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, under authority of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, one of the Welsh Ministers

27 Mehefin 2012

27 June 2012

DISGRIFIAD O'R ARDAL

DESCRIPTION OF THE AREA

Y rhan honno o wely'r môr ym Mae Abertawe sy'n ymestyn i tua 70 hectar, ac sydd oddi mewn i linell sy'n cysylltu'r cyfesurynnau a rifwyd 1 i 4 yn y tabl isod.

That part of the bed of the sea in Swansea Bay and extending to approximately 70 hectares, which lies within a line joining the co-ordinates numbered 1 to 4 in the table below.

<i>Pwynt</i>	<i>Lledred</i>	<i>Hydred</i>
1	51° 35. 27' Go	3° 58. 50' Gn
2	51° 35. 20' Go	3° 58. 20' Gn
3	51° 34. 45' Go	3° 58. 90' Gn
4	51° 34. 40' Go	3° 58. 50' Gn

<i>Point</i>	<i>Latitude</i>	<i>Longitude</i>
1	51° 35. 27' N	3° 58. 50' W
2	51° 35. 20' N	3° 58. 20' W
3	51° 34. 45' N	3° 58. 90' W
4	51° 34. 40' N	3° 58. 50' W

©© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1689 (Cy.217)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

PYSGOD CREGYN

Gorchymyn Pysgodfa Cregyn
Gleision Bae Abertawe (Thomas
Shellfish Limited) 2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1689 (W.217)

**SEA FISHERIES,
WALES**

SHELLFISH

The Swansea Bay (Thomas
Shellfish Limited) Mussel Fishery
Order 2012